

# Darllenydd Proflenni

## Cyflwyniad

Mae darllenwyr proflenni'n gwirio cyhoeddiadau am gamgymeriadau cyn iddynt fynd i gael eu hargraffu neu ymddangos ar-lein. Maent yn nodi ble y mae'r camgymeriadau, er enghraifft, yn y sillafu, gramadeg a'r atalnodi. Fel arfer, maent yn gweithio ar eu pennau eu hunain ac yn aml o'u cartrefi.



## Gweithgareddau Gwaith

Fel Darllenydd Proflenni, byddwch yn gweithio ar ystod eang o ddeunyddiau, gan gynnwys llyfrau, cylchgronau, taflenni gwybodaeth, adroddiadau, gwefannau a chyfnodolion academiaidd.

Byddai gwaith Awdur yn dod i'ch llaw yn draddodiadol ar ôl golygu'r copi a'i gysodi. Yna, byddwch yn gwirio proflenni o'r tudalennau yn erbyn y fersiwn a olygwyd air am air, gan sicrhau bod y cysodwr wedi dilyn nodiadau golygydd y copi'n gywir.

Fodd bynnag, erbyn hyn mae darllen proflenni yn aml yn 'ddall' sy'n golygu nad oes fersiwn wedi'i golygu gennych i gymharu'r testun â hi. Yn aml, byddwch yn defnyddio nodiadau safonol arbennig yn y testun ac wrth ymylon tudalennau i ddangos beth yw'r camgymeriadau, ble y maent a sut y dylid eu cywiro. Efallai y byddwch yn defnyddio inc coch i ddangos camgymeriadau'r cysodwr ac inc glas i ddynodi unrhyw gamgymeriadau a hepgorodd (neu a wnaeth) y Golygydd Copi. Ar gyfer gwaith ar y sgrîn, efallai y byddwch yn defnyddio nodwedd sy'n 'olrhain newidiadau' i farcio'r testun.

Mae'ch tasgau'n cynnwys:

- nodi camgymeriadau sillafu, gramadeg ac atalnodi
- gwirio bod rhifau'r tudalennau mewn trefn
- sicrhau cysondeb trwy ddilyn canllawiau arddull y cwmni
- sicrhau bod capsynau darluniau (diagramau, mapiau a lluniau) yn cydfynd â'r hyn sy'n cael ei ddangos yn y darlun

Nid ydych yn gwirio ffeithiau, yn awgrymu aillysgrifennu dim byd, yn gwneud sylwadau am gynllun tudalennau nac yn rhoi mynegeion at ei gilydd - nid yw'r elfennau hyn yn rhan o'ch rôl fel Darllenydd Proflenni.

Fel arfer, byddwch yn gweithio ar eich pen eich hun, er efallai y byddech yn cysylltu â'r Golygydd Copi a/neu'r Awdur i drafod ymholiadau. Byddwch yn defnyddio geiriaduron papur ac ar-lein ynghyd â chyfeirlyfrau eraill i wirio manylion nad ydych yn sicr ohonynt.

Gallai'r gallu i ddarllen, ysgrifennu a siarad Cymraeg fod o fantais i chi wrth chwilio am waith yng Nghymru.

## Rhinweddau Personol a Sgiliau

I ddod yn Ddarllenydd Proflenni, bydd arnoch angen :

- gwybodaeth gadarn o sillafu, gramadeg ac atalnodi
- llygad craff i sylwi ar fanylder a medru canolbwyntio am gyfnodau hirion
- gweithio'n daclus ac yn gywir
- sgiliau trefniadol a rheoli amser i gwrdd â therfynau amser
- mwynhau gweithio ar eich pen eich hun
- sgiliau cyfathrebu da i ymdrin â chleientiaid ac awduron
- sgiliau TG
- gwybodaeth o'r broses sydd ynghlwm wrth gynhyrchu llyfrau, deunyddiau eraill sy'n cael eu hargraffu a gwefannau

Mae'r rhan fwyaf o Ddarllenwyr Proflenni'n hunangyflogedig. Felly, fel arfer, bydd arnoch angen sgiliau busnes a marchnata.

## Cyflog a Chyfleoedd

**Cyflog** Cyfraddau cyflog bras yw'r rhai a nodir isod.

- Cychwynnol: £23,500 - £24,500
- Gyda phrofiad: £25,500 - £30,500
- Safleoedd uwch: £32,500

Gallai'r rhai sy'n gweithio ar eu liwt eu hunain fynd drwy gyfnodau heb waith.

**Oriau gwaith** Gallai'r oriau gwaith ddibynnu ar lwyth gwaith, ond gallai fod angen i chi weithio gyda'r hwyr ac ar y penwythnos i gwrdd â therfynau amser.

**Ble y gallwn i weithio?** Mae'r cyflogwyr yn gwmnïau cyhoeddi (naill ai sefydliadau mawrion sy'n cwmpasu ystod eang o gyhoeddiadau, neu gwmnïau arbenigol bychain sy'n ymdrin ag un neu ddau o feysydd cyhoeddi), asiantaethau dylunio graffig, argraffwyr, cyrff llywodraethol ac unrhyw sefydliad sy'n cyhoeddi deunydd ysgrifenedig, boed hynny wedi'i argraffu neu ar-lein. Er y canolir y diwydiant cyhoeddi traddodiadol yn Llundain, de-ddwyrain Lloegr, Rhydychen a Chaergrawnt, gall darllenwyr proflenni weithio yn unrhyw fan yn y Deyrnas Unedig.

### Hunangyflogaeth

Mae'r rhan fwyaf o Ddarllenwyr Proflenni'n hunangyflogedig ac ar eu liwt eu hunain, gan weithio fel arfer o'u cartrefi.

**Ble y caiff y swyddi gwag eu hysbysebu?** Mae'r SfEP yn cyhoeddi swyddi gwag yn 'SfEP Announce', sef bwletin newyddion drwy'r e-bost ar gyfer ei aelodau. Hysbysebir swyddi gwag mewn papurau newydd lleol/cenedlaethol, mewn cylchgronau masnach megis 'The Bookseller' (gan gynnwys y fersiwn ar-lein), ac ar hysbysfyrddau swyddi golygyddol a chyffredinol. Yn aml, mae darllenwyr proflenni ar eu liwt eu hunain yn hysbysebu ar gyfeiriaduron ar-lein y gellir gwneud chwiliad arnynt. Er enghraifft, gall aelodau 'cyffredin' ac 'uwch' yr SfEP gynnwys cofnod yng 'Nghyfeiriadur y Gwasanaethau Golygyddol'. Hefyd, gall fod yn syniad da bod gennych eich gwefan eich hun sy'n hysbysebu'ch gwasanaethau ac yn cynnwys tystlythyrau gan gleientiaid y buoch yn cydweithio â hwy. Mae gwefannau'r cyfryngau LinkedIn, Twitter neu Facebook, yn ffordd dda o rwydweithio, darganfod swyddi gwag a chysylltu â chyflogwyr posibl. Sicrhewch fod eich proffil yn rhoi argraff broffesiynol a fydd yn ddeniadol i ddarpar gyflogwyr. Darllenwch ein Herthygl Gwybodaeth Gyffredinol ynghylch 'Darganfod Gwaith Ar-lein'.

## Llwybrau Mynediad a Hyfforddiant

**Llwybrau mynediad** Nid oes llwybrau penodol o gael mynediad i'r yrfa hon. **Profiad Gwaith** Mae gradd gan rai Darllenwyr Proflenni, er enghraifft, yn Saesneg neu mewn pwnc sy'n gysylltiedig â'u maes prawfddarllen arbenigol, megis cyhoeddi gwyddonol. Ffordd wych o ddechrau ar yr yrfa hon yw trwy interniaeth. Darllenwch ein herthygl wybodaeth ar 'Interniaethau' am ragor o fanylion. **Hyfforddiant** Mae'r SfEP yn cynnig cynllun mentora lle y gall myfyrwyr sydd wedi cwblhau'r cyrsiau prawfddarllen priodol ennill mwy o sgiliau yn y maes drwy gael mynediad at fentor profiadol. Er mwyn dod yn aelod 'cyffredinol' o'r SfEP, rhaid eich bod yn medru arddangos tystiolaeth o'ch cymhwysedd ar ffurf hyfforddiant. I ddod yn aelod 'uwch', rhaid bod gennych gryn gymhwysedd a phrofiad sylweddol o brawfddarllen. Mae pobl sy'n llwyddo ym mhrawf achredu'r SfEP ym maes prawfddarllen yn dod yn aelodau uwch yn awtomatig. **Dod ymlaen** Mae rhai Darllenwyr Proflenni'n symud i swyddi is-olygu/golygu copiau. Hefyd, mae modd i Ddarllenwyr Proflenni profiadol ddarparu hyfforddiant prawfddarllen.

## Cymwysterau

Nid oes isafswm gofynion addysgol i gael mynediad i'r gwaith hwn, er bod arnoch angen gwybodaeth ardderchog am sillafu, gramadeg ac atalnodi Saesneg.

Gallai fod yn fantais petai gradd neu brofiad o faes penodol gennych chi oherwydd bod gwybodaeth arbenigol yn ddefnyddiol i rai cyhoeddiadau.

## Cyfleoedd i Oedolion

### Cyrsiau

Mae'r Ganolfan Hyfforddiant Cyhoeddi yn 'Book House' (PTC), Hyfforddiant Golygyddol (EditTrain) a Chymdeithas y Golygyddion a'r Darllenwyr Proflenni (SfEP) yn cynnig cyrsiau prawfddarllen. Mae'r PTC ac EditTrain yn cynnal cyrsiau drwy gyfrwng dysgu o bell.

### Cyllid

Mae rhywfaint o gyllid i wneud hyfforddiant ar gael gan Gymdeithas y Golygyddion a'r Darllenwyr Proflenni (SfEP).

## Gwybodaeth Bellach

### Cysylltiadau

- **Publishing Training Centre at Book House**  
E-bost [publishing.training@bookhouse.co.uk](mailto:publishing.training@bookhouse.co.uk)  
Gwefan [www.train4publishing.co.uk](http://www.train4publishing.co.uk)
- **The National Union of Journalists (NUJ)**  
Ffôn 020 78433700  
E-bost [info@nuj.org.uk](mailto:info@nuj.org.uk)  
Gwefan [www.nuj.org.uk/work/careers/](http://www.nuj.org.uk/work/careers/)
- **Professional Publishers Association (PPA)**  
E-bost [info@ppa.co.uk](mailto:info@ppa.co.uk)  
Gwefan [www.ppa.co.uk](http://www.ppa.co.uk)
- **Society for Editors and Proofreaders (SfEP)**  
E-bost [administrator@sfep.org.uk](mailto:administrator@sfep.org.uk)  
Gwefan [www.sfep.org.uk](http://www.sfep.org.uk)
- **London School of Publishing (LSP)**  
E-bost [enquiries@publishing-school.co.uk](mailto:enquiries@publishing-school.co.uk)  
Gwefan [www.publishing-school.co.uk](http://www.publishing-school.co.uk)
- **Women In Publishing (WiP)**  
Gwefan [www.womeninpublishing.org.uk](http://www.womeninpublishing.org.uk)
- **The Bookseller**  
E-bost [bookseller@escosubs.co.uk](mailto:bookseller@escosubs.co.uk)  
Gwefan [www.thebookseller.com](http://www.thebookseller.com)
- **Society of Young Publishers (SYP)**  
E-bost [sypchair@thesyp.org.uk](mailto:sypchair@thesyp.org.uk)  
Gwefan [www.thesyp.org.uk](http://www.thesyp.org.uk)
- **Bookcareers**  
Gwefan [www.bookcareers.com](http://www.bookcareers.com)
- **Inside Book Publishing**  
Author: Giles Clark Publisher: Routledge
- **Editorial Training**  
E-bost [info@edittrain.co.uk](mailto:info@edittrain.co.uk)  
Gwefan [www.edittrain.co.uk](http://www.edittrain.co.uk)

## Gyrfaoedd sy'n gysylltiedig

- Argraffwr Peiriant
- Gweithiwr Reprograffeg
- Gorffennwr Argraffu
- Argraffwr Sgrin
- Is-olygydd
- Golygydd
- Cynorthwy-ydd Golygyddol
- Cyhoeddwr
- Geiriadurwr
- Arbenigwr Argraffu 3D

